

Cymdeithas Chwiorydd Aberduar

Cynhaliwyd Arwerthiant Flynyddol Aberduar, yn y Ffestri, Nos Fercher 18fed o Fawrth 2015. Daeth llond y Ffestri ynghyd i gymdeithasu, ac i gefnogi'r noson, a brofodd i fod fel arfer yn achlysur llwyddiannus dros ben.

Llywyddwyd y gweithgareddau gan ein gweinidog y Parchg Jill Tomos, gan groesawu pawb yn gynnes iawn i noson sydd wedi hen sefydlu ei hun ar galendr yr eglwys.

Agorwyd y noson yn swyddogol gan un o blant yr eglwys sef Alan Jacob, Llys-y-Coed, Pencarreg. Yn ei anerchiad diddorol, cyfeiriodd at ei gysylltiad agos â'r eglwys yn Aberduar. Roedd gwreiddiau teulu ochr ei dad yn Aberduar, ac ochr ei fam yn Brondeifi, Llamed.

Roedd tadcu Alan, Benjamin Jacob, yn Ddiacon yn 1915, ac yn Drysorydd o 1925 – 1950. Soniodd Alan hefyd fod ef a'i frawd Brian yn cerdded i'r cwrdd yn y bore (a rhoi adnod yn ystod yr oedfa). Yr oedd yr Ysgol Sul yn y prynhawn, a'r athrawon y pryd hynny oedd Mrs Eunice Davies Y Manse, Nans George, Winnie Roberts, a Miss Humphreys, Einon View, Glanduar. Mae Alan yn Ddiacon, ac yn Drysorydd, ac yn aelod ffyddlon yn y capel. Daeth Alan a'i frawd Brian yn Drysoryddion yn 1986.

Cafwyd noson hapus a dymunol dros ben, ac elw ariannol sylweddol i goffrau cymdeithas y Chwiorydd.

Fel arwydd o werthfawrogiad, cyflwynodd Jill Tomos anrheg i Alan, ar ran y Chwiorydd. Diolch i Alan am ei rodd hael, ac i bawb am gydweithio gyda'r trefniadau, i sicrhau llwyddiant y noson. Gwnaethpwyd tua £1,543 ar y noson.

(Diolch i

Hannilia Court, ysgrifenyddes y Chwiorydd, am yr adroddiad yma.)


Cylch Darllen

Cynhelir y Cylch Darllen am 10.30 yn festri Noddfa. Croeso i rai newydd ymuno gyda ni am banded a darllen, ac yna, sgwrs, am argraffiadau ar y testunau.

Y dyddiadau nesaf yw:

15 Ebrill - yr eglwys: adnodau ym mhennod 16 o Actau, ac ym mhenodau 1 a 2 o Philipiaid

13 Mai - ein gobaith: Llyfr Datguddiad, pennod 21 ac adnodau 1-7 ym mhennod 22.



Deufis

Eglwys Bedyddwyr Gogledd Teifi

Ebrill a Mai 2015

Trefn oedfaon y Sul

Mae'r oedfaon yn gyhoeddus a chroeso i bob un fynychu unrhyw un o'r oedfaon sy'n gyfleus. Mae'r amseroedd yn gywir wrth fod y Deufis yn dod allan, ond os ydych am gael y manylion diweddaraf, beth am ddilyn @BedyddGogTeifi ar Drydar (Twitter)?

5 Ebrill (Sul y Pasg)

Noddfa	9.30 y bore	Cymun unedig i Noddfa, Caersalem a Bethel
Aberduar	11.00 y bore	Cymun unedig i Aberduar, Seion a Brynhafod

12 Ebrill

Aberduar	10.00 y bore	Mr Lyndon Lloyd
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun

19 Ebrill

Noddfa	9.30 y bore	
Aberduar	11.00 y bore	
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun

drosodd/...

Trefn y Suliau (parhad)

26 Ebrill

Aberduar	10.00 y bore	Mr Stan Evans
Bethel	10.15 y bore	
Brynhafod	1.30 y prynhawn	
Seion	3.00 y prynhawn	

3 Mai

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	6.00 yr hwyr	Cymun

10 Mai

Aberduar	10.00 y bore	Mr Silyn Thomas
Bethel	10.15 y bore	Oedfa unedig i Gaersalem, Bethel a Noddfa o dan ofal y Parchg Athro Densil Morgan
Seion	2.00 y prynhawn	Oedfa unedig i Frynhafod a Seion o dan ofal y Parchg Stephen Morgans

17 Mai

Aberduar	10.00 y bore	
Caersalem	2.30 y prynhawn	Cymanfa Ganu

24 Mai

Aberduar	10.00 y bore	Doniau'r eglwys
Bethel	10.15 y bore	
Brynhafod	1.30 y prynhawn	
Seion	3.00 y prynhawn	

31 Mai

Aberduar	10.30 y bore	Oedfa unedig i'r Cylch
----------	--------------	------------------------

Rhaghysbys 7 Mehefin

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	6.00 yr hwyr	Cymun

www.bedyddwyrnogleddeifi.org @BedyddGogTeifi facebook - Aberduar, Bethel Silian, Brynhafod a Noddfa
Diolch i bob un sy'n trefnu dyblygu a dosbarthu'r *Deufis*.

Cymanfa Ganu Cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan

Cynhelir unig Rihyrstal y Gymanfa Ganu eleni ar
26ain o Ebrill 2015, am 2 o'r gloch
ym Methel Cwm Pedol,
o dan arweiniad Mr Emlyn Davies, Llanybydder.

Ac yna cynhelir y Gymanfa Ganu ar yr 17eg o Fai yng nghapel Caer-
salem Parc-y-Rhos, pan edrychwn ymlaen at gael ein harwain gan Mrs
Delyth Morgans Phillips, Noddfa.

Diolch i Delyth ac i Emlyn am fod mor barod eu gwasanaeth, a dewch
yn llu i ganu clod i'r Arglwydd!

Rhaghysbys:

*Bydd eglwysi Noddfa, Caersalem a Bethel yn gyfrifol am ddarparu'r
Te i'r Ifanc o Galon ar y Iaf o Orffennaf 2015 - gwybodaeth i ddilyn.*

Banc Bwyd Llambod Daeth adroddiad y Banc Bwyd i law ar
gyfer 2014, sef yr ail flwyddyn o'i waith, yn dangos fod 153 o
becynnau bwyd wedi eu rhoi yn ystod y flwyddyn, gyda digon o fwyd
ar gyfer 3,600 o brydau i rai mewn angen. Bu'r Banc Bwyd yn darpa-
ru ar gyfer rhai mewn gwaith a rhai heb waith, yn ôl yr angen, gan
gynnwys i deuluoedd anghenus yn ystod gwyliau'r plant pan nad oedd
cinio ysgol am ddim ar gael, ac i rai ar ddechrau gwaith newydd pan fu
rhaid aros am fis am y cyflog cyntaf. Erbyn hyn fe ddarperir Cawl
hefyd, rhwng 12 a 2 yn Emaus ar ddydd Mawrth, i rai gael bwyd a
sgwrs. Diolch i bawb o'r Cylch sy'n cymryd diddordeb yn y Banc
Bwyd, yn gweithio shift, ac yn rhoi bwydydd a chyfraniadau ariannol
i'r achos da hwn.

Ysgol Sul Noddfa

Unwaith eto bu plant a ieuentid Noddfa yn ein harwain mewn addoli-
ad ar gyfer Sul y Mamau a'r Pasg, ar brynhawn Sul y 15fed o Fawrth.
Diolch i bawb o'r plant a'r ieuentid, ac i'w rhieni (gyrwyr y tacsis i
gyd) ac i Janet a'i chydweithwyr wrth y paratodau o wythnos i wyth-
nos. Edrychwn ymlaen nawr at gyfraniad y plant i'r Gymanfa Ganu!